

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Mai 12fed, 2016 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

Yn bresennol: Y Cyngorwyr Ifor W Davies, (Cadeirydd); Marian Evans (Is gadeirydd); Dafydd Williams; Margaret Griffith; William Ifor Hughes; Naomi Jones; Trefor W Jones; Alwen Evans; Anwen Jones; Gwilym M Thomas a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau.: Y Cyngorwyr Elis Gwyn Jones; Sian Angharad Parry; Thomas Prys Jones ac Aled Lloyd Evans.

2. Dewis swyddogion am y flwyddyn 2016/2017. a) Cadeirydd, y Cyngorwyr Marian Evans, Ward Llanystumdwy. b) Is gadeirydd, y Cyngorwyr Gwilym M Thomas, Ward Llanarmon. c) Ysgrifennydd a Swyddog Ariannol Cyfrifol, Mr Richard John Roberts. ch) Elusen William Ellis, Llanystumdwy, Cyngorwyr Ward Llanystumdwy.

3. Dewis cynrychiolydd i Bwyllgor Rhanbarth Un Llais Cymru, y Cyngorwyr Trefor W Jones a'r Cyngorwyr Ifor W Davies wrth gefn.

4. Dewis cynrychiolydd y Cyngor ar Grwp Mynediad Dwyfor, y Cyngorwyr Margaret Griffith.

Wrth drosglwyddo'r Gadeiryddiaeth i'r Cyngorwyr Marian Evans diolchodd y Cyngorwyr Ifor W Davies am gefnogaeth pawb gydol y flwyddyn. Ymatebodd y Cyngorwyr drwy ddiolch i'r Cyngorwyr Davies am ei waith a chydymdeimlwyd ag ef ar ei brofedigaeth ddiweddar o golli ei dad. Roedd y Clerc wedi anfon cerdyn ar ran y Cyngor.

5. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Ebrill 7fed, 2016.

6. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.

7. Datgan buddiant personol. Y Cyngorwyr William Ifor Hughes yn datgan diddordeb yng nghais cynllunio Tir ger Dolydd, 4 Glasfryn Terrace, Pencaenewydd, rhif 9 -1 ar y rhaglen waith achos ei fod yn gymydog i'r ymgeisydd.

8. Cyngor Gwynedd.

1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd; Binau Halen. Penderfynwyd derbyn am rwan y wybodaeth y bydd y binau halen yn llawn ar Hydref 1af, 2016; mai Cyngor Gwynedd fydd â chyfrifoldeb dros yr ased, e e taro gan gerbyd; ac mai Cyngor Gwynedd fydd yn darparu'r gwasanaeth ail lenwi.

2. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Peryglon troi am Lanarmon/Llangybi wrth adael pentref Chwilog. Derbyniwyd er gwybodaeth bod y llythyr wedi cael ei anfon ymlaen at Trafnidiaeth a rhoi hwn ar raglen waith mis Mehefin.

3. Technegydd Cludiant Gweithredol; llochesi bws Afonwen, Maes Myrddin Chwilog a Llanystumdwy. Penderfynwyd gofyn i Mr D E Williams, Llithfaen osod y powltiau coll yn llochesi bws Maes Myrddin Chwilog a Llanystumdwy.

4. Rheoleiddio – CTGC; y llwybr ger Gwesty Bron Eifion. Penderfynwyd derbyn bod y tanciau dal carffosiaeth wedi cael eu gwagio, ac mai dŵr tir sydd yn llifo rwan.

5. Adran y Prif Weithredwr. Penderfynwyd rhoi'r llythyr ynghylch defnydd o'r iaith Gymraeg ar raglen waith mis Mehefin.

6. Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn, archwiliad. Enwyd y Cyngorwyr Margaret Griffith a Thomas Prys Jones i fynd i'r cyfarfod cyn-

wrandawriad ar ddydd Mawrth, Mehefin 14eg. Ni all y Cynghorydd Thomas Prys Jones fynd i'r cyfarfod.

7. Adran Rheoleiddio, Gwasanaeth Amgylcheddol; Adran 119, Deddf Priffyrdd 1980 – Bwriad i wyro Llwybr Troed Cyhoeddus Rhif 67 yng Nghymuned Llanystumdwy (Bryn Bachau). Penderfynwyd cytuno i'r gwriad.

8. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Priffyrdd mis Mai 2016. Penderfynwyd derbyn.

* Trwy ganiatad y Cadeirydd

9. Pennaeth Adran Rheoleiddio (Dros Dro); Newid yn Nhrefniant Ad-Daliad Costau Cynnal Llwybrau Cyhoeddus. Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth.

* Trwy ganiatad y Cadeirydd

10. Cefnogaeth Gorfforaethol, Uned Gyfathrebu ac Ymgysylltu; Cyfle i gynnig sylwadau ar ardaloedd cymunedol Gwynedd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Penderfynwyd ymateb drwy ofyn sut y dewisiwyd yr ardaloedd dan sylw a beth mae'n olygu i'r ardaloedd chafodd mo'u dewis?

9. Cyngor Gwynedd – 1. Cais rhif C16/0360/41/LL- Ail gyflwyniad a diwygiad o gais a wrthodwyd o dan C16/0091/41 LL i godi ty fforddiadwy ar safle eithrio gwledig; Tir ger Y Dolydd, 4 Glasfryn Terrace, Pencaenewydd. Penderfynwyd gwrthwynebu am y rhesymau canlynol:

a. Mae'r ffordd heibio'r tai yn anaddas.

b. Rhes o dai cerrig ydi Rhedai Glasfryn – byddai hwn yn wyn ac felly ddim yn gweddu.

c. Y ffurflen gais cwestiwn 21; mae tic yn y boc Na ar ôl llifogydd ond dim ond rhyw 6 wythnos sydd er pan symudodd teulu Ty'r Felin yn ôl i'w cartref ers llifogydd diwedd llynedd. Mae'r ardal yma'n cael llifogydd yn aml. Maent hefyd wedi rhoi tic ym mocs Na i ddweud na fydd y datblygiad yn cynyddu'r peryg o lifogydd yn rhywle arall; anodd credu hynny. Dim cais gan rhywun sy'n cydymffurfio ag amodau "tŷ fforddiadwy" ydi hwn – cais "ar sbec" ydi o. Does dim sicrwydd y byddai'r ty'n fforddiadwy i unrhyw un fyddai am ei brynu.

2. Cais rhif C16/0138/41/LL – Cais ar gyfer gosod 11 llety gwyliau yn lle 10 caban a charafanau gwyliau, llety rheolwr sy'n cynnwys derbynfa a swyddfa i gymeryd lle llety rheolwr presennol, gosod 5 pod gwerysyla, codi adeilad mwynderol a storfa cyfarpar, ac ail-wampio'r safle bresennol a thirweddu; cynllun diwygiedig a dderbyniwyd ar Ebrill 4ydd, 2016; Bron Eifion Fishing Lakes and Lodges, Criccieth. Penderfynwyd cefnogi.

3. Cais rhif C16/0385/41/LL – Cais diwygiad ansylweddol i ganiatad C15/0751/41 LL ar gyfer lleihau'r cyfanswm nifer o baneli, lleihau'r ardal a gynhwysir o fewn perimedr ffens diogelwch oherwydd ardaloedd gwarchod gwreiddiau a strbedi cylch rhagod ecolegol a newidiadau i'r trefniant gosod paneli, aildrefnu is-orsaf o gae 2 i 3, cynnwys traciau mynediad ar gyfer is orsaf DNO yng nghaeau 1 a 3, codi polyn ar gyfer cyswllt a'r DNO, darparu rhes ychwanegol o baneli ar bob tabl heb godi uchder, a tynnu'r cylch sbigyn o'r polion CCTV; Fferm Bryn Bachau, Chwilog. Cefnogi.

4. Cais rhif C16/0193/41/LL – Estyniad; Harlech Frozen Foods, Dwyfor Food Park, Llanystumdwy. Penderfynwyd cefnogi.

10. Cyfethol Cynghorydd dros Ward Rhoslan. Penderfynwyd cyfethol Mr Tegid Jones, Stabl Hen, Tyddyn Du, Rhoslan a'i wahodd i gyfarfod y Cyngor mis Mehefin.

11. Un Llais Cymru; Cwrs ar Sgiliau Cadeirio yng Nghaernarfon ddydd Iau Mai 26ain. Mae'r trefniadau wedi cael eu gwneud i'r Cynghorydd Marian Evans fynd i'r cyfarfod yma

12. Materion yn y gymuned.

Llanarmon

Llanystumdwy

Chwilog

* Trwy ganiatad y Cadeirydd; ar gais trethdalwr, y ffordd rhwng groeslon Llanarmon a groeslon Stellgoed, er bod y ffordd yn syth, mae'r gwelediad yn wael yn y pant a damwain wedi bod yno dyddiau diwethaf yma, arwydd 40 mya neu linellau gwyn dwbl yng nghanol y ffordd? Penderfynwyd anfon at Adran Trafnidiaeth, Cyngor Gwynedd yn gofyn am gael cyfarfod safle ynghylch hyn.

Llangybi:

* Trwy Ganiatad y Cadeirydd; 1. Tyllau yn y ffordd o Gadair Elwa i lawr i'r groesffordd ger Terfyn. Deallir bod peth trwsio wedi bod y dyddiau diwethaf yma.

2. Tyllau drwg ar ffordd Rhosgo. Trwsio wedi bod yma hefyd.

3. Cyflwr llwybr Pont Merchaid. Penderfynwyd cael golwg ar y mapiau a rhoi hwn ar raglen mis Mehefin.

Materion Ariannol.

13. Adroddiad ariannol ar lafar.

14. Cyngor Gwynedd, taliad rhan gyntaf y Praesept 2016-17, £7,500-. Penderfynwyd derbyn.

15. The Pensions Regulator. Eglurodd y Clerc ei fod am ysgrifennu at rhain yn egluro sefyllfa'r Cyngor yma nad oes angen paratoi pensiwn ar gyfer yr un gweithiwr sydd gan y Cyngor, sef y Clerc, oherwydd bod swm ei gyflog dan y trothwy. Derbyniwyd.

16. Gohebiaeth oddi wrth yr Archwiliwr Mewnol a'r trefniadau ar gyfer archwilio cyfrifon 2015-16. Penderfynwyd derbyn llythyr Mr John D Roberts yn derbyn y gwahoddiad i fod yn Archwiliwr Mewnol Y Cyngor am y flwyddyn 2015-16 yn cadarnhau ei fod yn hollol annibynnol o'i weithgareddau. Bydd yr Archwiliad Mewnol yn cael ei gynnal yn swyddfa Cyngor Gwynedd, Pwllheli ar Fai 23ain, 25ain a'r 26ain.

17. Anfonebau angen eu talu:

a. Argraffdy Eryri, arwydd To Isel ar gyfer lloches bws Rhoslan, £24- + TAW = £28.80c, taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

b. Zurich, yswiriant y Cyngor am flwyddyn o Fehefin 1af, 2016 ymlaen - £736.93c, taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

* Trwy ganiatad y Cadeirydd, c. Trefn, gosod arwydd yn lloches bws Rhoslan £15- a chrafu a phaentio (2gôt) giat a'r gwaith haearn ar safle bedd Lloyd George £60-, cyfanswm £75, taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

18. Gwaith ar y llwybrau, Ebrill 2016 ymlaen. Trafod prisiau; wedi derbyn 3 pris am wneud y gwaith:

a. y llwybr swyddogol o Ffynnon Cybi i ben Garn Bentyrch, un toriad. Penderfynwyd derbyn pris Criccieth Cleaning Ltd.

b. y llwybr dan bont y rheilffordd i'r traeth yn Afonwen, dau doriad. Penderfynwyd derbyn pris Criccieth Cleaning Ltd.

c. Y llwybr heibio Ynysgain Bach hyd at bont y rheilffordd, dau doriad. Penderfynwyd derbyn pris Criccieth Cleaning Ltd.

ch. Y llwybr o'r ffordd fawr i fyny at fythynnod Tŷ Newydd, dau doriad. Penderfynwyd derbyn pris Criccieth Cleaning Ltd.

d. Llwybr Clawdd Llanw o Bontfechan dros y rheilffordd am Ty'n Morfa, dau doriad. Penderfynwyd derbyn pris Criccieth Cleaning Ltd.

dd. Ceg y llwybr ar hen ffordd Abercin, ochr y pentref i'r ffordd osgoi. Penderfynwyd derbyn pris Criccieth Cleaning Ltd.

19. Rheoliadau Ariannol, dogfen ddrafft oddi wrth Un Llais Cymru.

Roedd y ddogfen wedi cael ei galw nôl gan Un Llais Cymru.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.